Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Fframwaith integreiddio ar gyfer nyrsys a addysgir yn rhyngwladol

Canllawiau hanfodol i helpu nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol i integreiddio i GIG Cymru.


**Cyhoeddwyd gyntaf:** 25 Tachwedd 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 25 Tachwedd 2024



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Croeso i Gymru / welcome to Wales

Cefndir

Fframwaith

Adrannau'n seiliedig ar themâu allweddol i'w cynnwys yn yr ap: nodwch eto nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Croeso i Gymru / welcome to Wales

Fframwaith canllaw ar yr wybodaeth hanfodol i helpu nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol i integreiddio yn GIG Cymru.

## Cefndir

Y GIG yw un o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghymru, ac ers amser maith mae wedi elwa ar gyfraniad nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol, sy'n chwarae rhan hanfodol yn y ddarpariaeth gofal iechyd ar hyd a lled y wlad. Er gwaethaf ymdrechion i ddenu, cyflogi a hyfforddi mwy o nyrsys yn lleol, nid yw nifer y graddedigion prifysgol a addysgir yn y wlad hon wedi gallu cadw i fyny â'r galw cynyddol. Mae'r pwysau cynyddol ar wasanaethau'r GIG, a waethygir gan effeithiau parhaus y pandemig Covid, wedi dwysáu'r prinder gweithlu ymhellach, gan wneud recriwtio rhyngwladol yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Mae llawer o waith yn parhau i gael ei wneud i ddenu, cyflogi, buddsoddi, a hyfforddi mwy o nyrsys i weithio yn ein GIG. Mae recriwtio rhyngwladol yn un rhan o strategaeth gweithlu gynhwysfawr, ac ni fwriedir iddo fod yn ateb hirdymor ynddo'i hun.

## Fframwaith

Mae'r rhaglen recriwtio rhyngwladol foesegol, unwaith i Gymru, yn cefnogi ein GIG drwy ddarparu dull gweithredu cyson ar gyfer gweithredu model recriwtio moesegol a chynaliadwy. Er mai'r byrddau iechyd unigol sy'n gyfrifol am gynllunio'u gweithlu eu hunain, drwy gyflwyno'r fframwaith hwn a lansio'r ap

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

pwrpasol, byddwn yn sefydlu dull gweithredu cyson ar gyfer darparu cymorth a llesiant trwy'r wybodaeth a roddir i'r nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol sy'n ymuno â gweithlu GIG Cymru.

Mae'r fframwaith canllaw hwn yn sefydlu dull gweithredu clir ar gyfer ymdrin â sut y bydd pob sefydliad GIG, sy'n cyflogi'r nyrsys hyn, yn darparu gwybodaeth drwy ap pwrpasol. Ariennir yr ap yn ganolog ar gyfer 1,500 o drwyddedau dros gyfnod o dair blynedd, ac ar ôl hynny bydd y tîm recriwtio rhyngwladol canolog yn adolygu ac yn gwerthuso'r angen am drwyddedu parhaus. Mae'r fframwaith yn amlinellu adrannau hanfodol y mae'n rhaid eu cynnwys mewn deunyddiau cymorth lleol i sicrhau bod dull gweithredu cyson a theg ar waith ar gyfer ymdrin â gwybodaeth sy'n helpu nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol i integreiddio'n broffesiynol ac addasu'n bersonol i fywyd yng Nghymru.

Nid yw'r enghreifftiau craidd yn y fframwaith yn rhai cynhwysfawr, gan ganiatáu hyblygrwydd i sefydliadau adeiladu arnynt a'u haddasu lle bo angen. O ystyried natur esblygol bywyd a gofal iechyd, rhaid i'r wybodaeth a ddarperir barhau'n ddeinamig a chael ei diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn systemau cymorth a pholisïau allweddol.

Bydd y nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol sydd wedi sicrhau contract gyda GIG Cymru yn cael mynediad i drwydded ap, gan eu galluogi i dderbyn gwybodaeth cyn iddynt gyrraedd.

## Y fframwaith a'r ap

Yn hytrach na chreu pecyn cymorth annibynnol i Gymru, mae'r ap bugeiliol yn cefnogi'r fframwaith canllaw drwy alluogi sefydliadau i addasu ac ychwanegu gwybodaeth atodol wedi'i theilwra i'w cyd-destun lleol, gyda phecyn cymorth hygyrch a hyblyg. Bydd yr ap yn cynnig mynediad hawdd i ystod gynhwysfawr o wybodaeth sy'n gysylltiedig â gwaith ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan helpu nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol i integreiddio'n esmwyth i'w rolau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

proffesiynol a'r gymuned leol.

Yn ogystal â'r meysydd allweddol a amlinellir yn y fframwaith, mae'n ofynnol i bob sefydliad GIG ddarparu gwybodaeth benodol am bolisïau cenedlaethol allweddol Cymru. Bydd rhaglenni ymsefydlu sefydliadol yn helpu'r nyrsys hyn i ddeall a chadw at arferion, polisïau a safonau proffesiynol Cymru, gan gydnabod y gwahanol safbwyntiau polisi ac arferion ledled y byd er enghraifft atal a rheoli heintiau, a threfniadau diogelu ac adrodd.

Mae strwythur llywodraethu'r ap wedi ei gynllunio i sicrhau bod y cyfrifoldeb am reoli cynnwys a diweddariadau yn glir. Bydd hafan yr ap yn cael ei rheoli'n ganolog gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Bydd pob sefydliad sy'n recriwtio nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol yn gyfrifol am reoli a diweddaru eu priod dudalennau, a gellir mynd at y tudalennau hyn o'r hafan. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r ap, ni fydd yn gyfrifol am y gwaith parhaus o reoli gwybodaeth. Y sefydliadau unigol sy'n gyfrifol am gynnal a diweddaru'r cynnwys.

## GIG Cymru

### Meysydd polisi craidd

Mae'r fframwaith yn tynnu sylw at bolisïau allweddol a fydd yn cael sylw amlwg ar "dudalen lanio" yr ap ar gyfer GIG Cymru. Er nad yw'r rhestr isod yn gynhwysfawr, mae'n rhoi enghreifftiau o'r mathau o wybodaeth a fydd yn hygyrch i nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol, er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr wybodaeth briodol ac yn cael eu cefnogi wrth iddynt ddechrau ar eu gyrfaoedd yng Nghymru:

- polisi a chanllawiau cenedlaethol Cymru
- safonau ac arferion proffesiynol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- protocolau diogelu
- fframweithiau adrodd a llywodraethu
- gwybodaeth am fewnfudo a gwybodaeth gyfreithiol
- gwybodaeth am y llysgenhadaeth leol neu'r conswl

Fel y nodwyd, nid yw'r wybodaeth sydd ei hangen yn gynhwysfawr, ond mae'n darparu enghreifftiau o bolisïau a fydd yn ymddangos ar "dudalen lanio" yr ap. Polisïau megis:

- **Cymru Iachach, ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol**
- mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol, fel y nodir yn ei **chynllun gweithredu ar gyfer Cymru wrth-hiliol**
- **Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Strategaeth weithlu 10 mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol**
- **cynllun gweithredu cenedlaethol y gweithlu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu | LLYW.CYMRU**
- fframwaith siarad yn ddiogel GIG Cymru, **fframwaith GIG Cymru codi llais heb ofn | LLYW.CYMRU**
- **strategaeth y Gymraeg, Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU**
- polisïau adnoddau dynol GIG Cymru
- polisïau sy'n gysylltiedig ag arferion GIG Cymru
- blaenoriaethau Prif Swyddog Nyrsio Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Adrannau'n seiliedig ar themâu allweddol i'w cynnwys yn yr ap: nodwch eto nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr

## Gwybodaeth gefndir gyffredinol am y bwrdd iechyd, gweithio yng Nghymru, a'r ardal gyfagos

I'w cynnwys:-

- trosolwg o Gymru (diwylliant, daearyddiaeth, y Gymraeg)
- cyflwyniad i system GIG Cymru
- trosolwg cyffredinol o reolau / rheoleiddio / ymddygiadau sy'n dderbyniol yn ddiwylliannol ar gyfer byw a gweithio yng Nghymru er enghraifft rheolau cod priffyrdd, o safbwynt cyfreithiol a throseddol cyffredinol
- map o ardal y bwrdd iechyd lleol/yr ymddiriedolaeth, gan gynnwys lleoliadau allweddol
- canllawiau proffesiynol
- daearyddiaeth gyffredinol – poblogaeth, gwasanaethau a ddarperir hy gwasanaethau sylfaenol, acíwt, trydyddol ac ati
- nifer yr ysbytai a'r mathau / gwasanaethau a ddarperir / y boblogaeth a wasanaethir
- niferoedd staffio ar draws y bwrdd iechyd, sef staff nyrsio a chyffredinol
- timau/unigolion allweddol sy'n gweithio ar draws y bwrdd iechyd a manylion cyswllt gan gynnwys:-
    - addysg
    - adnoddau dynol
    - rheolwr llinell
    - mentor/goruchwyliwr
    - fforwm / tîm nyrsys rhyngwladol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cymorth cymdeithasol bugeiliol

I'w cynnwys:

- cyswllt cyn cyrraedd
- casglu a chefnogi wrth gyrraedd y maes awyr
- cysylltiadau brys (yr heddlu, tân, ambiwlans)
- llinellau cymorth a gwasanaethau'r GIG
- hanfodion byw: llety:
  - cymorth a ddarperir ac am ba gyfnod
  - manylion gwerthwyr tai – i'w rhentu ac i'w prynu (ar ôl cymorth cychwynnol)
  - gwybodaeth gyffredinol arall er enghraifft treth gyngor; ardrethi dŵr; cofrestru ar gyfer cyfleustodau; trwydded teledu ac ati
- gwasanaethau cymorth / darpariaeth gofal iechyd:
  - asesiad iechyd galwedigaethol, gan gynnwys gofynion brechu
  - cofrestru gyda meddyg teulu
  - cofrestru gyda deintydd
  - optometrydd
  - fferyllfeydd
- trafnidiaeth gyhoeddus:
  - darparu cymorth sefydliadol
  - gwasanaethau bws
  - gwasanaethau trên
  - tacsis
- gwasanaethau ariannol a bancio:
  - gwasanaethau bancio yn yr ardal
  - dogfennaeth ofynnol i agor cyfrif
- siopa a manwerthu:
  - bwydydd (archfarchnadoedd / siopau lleol)
  - dillad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

    - nwyddau i'r cartref
- hamdden:
    - llyfrgelloedd
    - clybiau ffitrwydd
    - canolfannau hamdden
    - hybiau cymunedol
- ffydd / crefydd / anghenion a rhwydweithiau ysbrydol
    - gwasanaethau caplaniaeth
    - eglwysi / mosgiau / synagogau / temlau / canolfannau Bwdhaidd / canolfannau Hindŵaidd ac ati
    - rhwydweithiau – cymdeithasau sefydliadol penodol ac allanol er enghraifft mwyafrif byd-eang, BINA (Cymdeithas Nyrsys Indiaidd Prydeinig), y Gymdeithas Nyrsys Ffilipino ac ati
- gwybodaeth am ddiwylliant/sesiynau gan gynnwys y sefyllfa ddiogelu yng Nghymru
- addysg a chefnogaeth i deuluoedd
- ysgolion a chyfleusterau gofal plant
    - ysgolion
    - meithrinfeydd a gofal plant
- lleoedd i fwyta
    - bwytai, caffis, siopau coffi

## Ymsefydlu sefydliadol

I'w cynnwys:

- rhaglen ymsefydlu/cyfeiriadedd:
    - pob rhaglen ymsefydlu ar gyfer staff
    - cynllun datblygu ar waith o fewn 6 mis i'r dyddiad dechrau
    - cod gwisg Cymru gyfan / gwisgoedd nyrsio cenedlaethol yn GIG Cymru
    - cyflog a phensiynau
    - polisi codi llais yn ddiogel

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

    - adnoddau a chysylltiadau cyffredinol er enghraifft y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 111, polisïau iechyd Llywodraeth Cymru, RCN (Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru), llywodraeth leol

## Paratoi ar gyfer OSCE (archwiliad clinigol strwythuredig a welwyd)

I'w cynnwys:

- manylion rhaglen baratoi OSCE er enghraifft:
    - hyd y rhaglen
    - y sawl a fydd yn cefnogi gwaith cyflenwi'r bwrdd iechyd, gan gynnwys manylion cyswllt
    - cynnwys y rhaglen, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb; dylid ystyried cynnwys gwybodaeth benodol am GIG Cymru ee byrfoddau a therminoleg
    - cymorth ôl-gofrestru a'r hyn sydd i'w ddisgwyl
    - dylid darparu manylion am ganolfannau a gweithdrefnau prawf y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.